

Annwyl Cyfarwyddwr

Adolygiad AGC o Berfformiad Awdurdod Lleol

Cyhoeddwyd ein cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ym mis Ebrill 2019 a oedd yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn;
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion o arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion;
- amlinellu ein blaenraglen waith.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Sir Penfro yn y ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol statudol. Mae'n dilyn pedwar egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r ffordd rydym yn cefnogi gwelliant; dull sy'n gynyddol gydweithredol ac yn seiliedig ar gryfderau. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i wella'n barhaus.

Caiff y cynnwys ei lywio gan ein harolygiad o'r gwasanaethau plant ym mis Medi 2018 a gweithgarwch gwerthuso perfformiad yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys gweithgaredd â ffocws yn y gwasanaeth plant ac oedolion. Roedd y gweithgareddau hyn yn cynnwys:

- Gweithgaredd â ffocws gyda'r Tîm Anableddau Dysgu ym mis Gorffennaf a mis Awst 2018, yng Nghanolfan Ddydd Meadow Park yn Hwlffordd ym mis Chwefror 2019 a chyda'r Tîm Comisiynu ym mis Tachwedd 2018.
- Hunanwerthusiad y Gwasanaethau Oedolion
- Cyfarfod her y Gwasanaethau Plant

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Caerfyrddin
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth
Heol Picton
Caerfyrddin
SA31 3BT
www.arolygiaethgofal.cymru

☎ 0300 790 0126
☎ 0872 437 7303
✉ CIWLocalAuthority@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Carmarthen Office
Welsh Government
Government Buildings
Picton Terrace
Carmarthen
SA31 3BT
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Ymweliad arolygu gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru o Dîm Iechyd Meddwl Cymunedol De Sir Benfro.

Gwnaethom drafod y materion hyn ynghyd â'n gweithgarwch gwerthuso perfformiad arfaethedig ar gyfer 2019/20 â chi yn y cyfarfod adolygu perfformiad blynyddol ar 16 Ebrill 2019.

Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

- Lles

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wedi cynnal adolygiad thematig o wasanaethau iechyd meddwl cymunedol. Cynhaliwyd ymweliad arolygu â Thîm Iechyd Meddwl Cymunedol De Sir Benfro. Nodwyd bod pobl yn fodlon ar y gwasanaeth maent yn ei dderbyn ar y cyfan a bod y staff yn ymrwymedig i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl. Gwnaethom nodi rhai meysydd i'w gwella, gan gynnwys cofnodi sgysiau 'Yr Hyn sy'n Bwysig' a rhai gwelliannau i'r amgylchedd ffisegol. Yn 2019/20, byddwn yn gwerthuso'r cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran rhoi ei gynllun gweithredu ar waith ynghyd â'r argymhellion yn yr adroddiad trosolwg thematig cenedlaethol.

Gwnaethom waith dilynol ar ein harolygiad o wasanaethau i bobl ag anableddau dysgu a phryderon a dderbyniwyd yn dilyn hyn. Gwelsom fod y rheolwyr yn gefnogol ac yn agos-atoch.

Gwnaethom siarad â'r staff a gwelsom sampl o gofnodion comisiynu ym mis Tachwedd 2018 yn dilyn pryder bod gofal seibiant yn cael ei ddarparu gan wasanaeth a oedd yn gweithredu heb gofrestrriad. Cydnabu staff yr awdurdod lleol nad oedd y cwmni wedi'i gofrestru i ddarparu gofal seibiant. Cawsom ein sicrhau bod yr awdurdod lleol yn cymryd camau gweithredu i atal y posibilrwydd y byddai gwasanaeth heb ei gofrestru'n cael ei gomisiynu; adolygwyd rhestr o ddarparwyr cymeradwy ac roedd gwaith ar fframwaith comisiynu a phroses newydd wedi'i drefnu ar gyfer 2019. Byddwn yn adolygu cynnydd trefniadau comisiynu drwy ein gweithgarwch gwerthuso perfformiad yn 2019/20.

Nodwn fwriad yr awdurdod lleol i leihau nifer y plant mewn lleoliadau preswyl ac i blant ddychwelyd i'w cartref/cymuned. Mae gwaith y grŵp trosglwyddo strategol sy'n gweithio ar y cyd â Choleg Sir Benfro a darparwyr lleol i ddatblygu opsiynau amgen lleol yn lle darpariaeth breswyl y tu allan i'r sir wedi bod yn ddatblygiad cadarnhaol. Nodwn hefyd y cynnydd o ran gwella gwasanaeth maethu'r awdurdod lleol. Er enghraifft, mae'r holl adolygiadau blynyddol o ofalwyr maeth wedi cael eu cwblhau o fewn y terfyn amser statudol. Byddwn yn gweithio gyda Chyngor Sir Penfro i adolygu cynnydd yn y meysydd hyn drwy ein gweithgarwch gwerthuso perfformiad yn 2019/20.

Ym mis Ebrill 2018, rhoddodd darparwr gofal cartref mawr a oedd yn darparu gofal yn Sir Benfro y gorau i weithredu ac felly penderfynodd Cyngor Sir Penfro gofrestru gwasanaeth mewnol newydd. Cafodd y broses hon ei rheoli'n dda heb darfu'n ormodol ar y bobl a oedd yn derbyn gofal.

Mae'n gadarnhaol nodi y dyfarnwyd Gwobr Gofal Cymdeithasol i Gyngor Sir Penfro yn 2018 am ei brosiect a newidiodd y diwylliant o fod angen dau aelod o staff i ddarparu gofal i bobl hŷn a phobl anabl yn eu cartrefi eu hunain. O ganlyniad i hyn, roedd mwy o adnoddau ar gael fel bod pobl yn gorfod aros llai o amser am ofal a chymorth.

Gwnaethom arolygu gwasanaethau plant Cyngor Sir Penfro ym mis Medi 2018 ac ar y cyfan gwelsom fod Cyngor Sir Penfro wedi dangos ei ymrwymiad i foderneiddio'r ffordd y mae gwasanaethau plant yn cael eu comisiynu a'u darparu. Gwelsom fod aelodau'r tîm uwch-reolwyr yn ymrwymedig i ddiwylliant o ddiwylledd a thryloywder, eu bod yn croesawu her, yn rhagweithiol wrth nodi meysydd yr oedd angen eu datblygu ymhellach ac yn defnyddio amrywiaeth o opsiynau ar gyfer ysgogi gwelliant. Datblygodd yr awdurdod lleol gynllun gweithredu mewn ymateb i'r canfyddiadau ac mae'n gadarnhaol nodi bod cam gweithredu allweddol i gynyddu gallu uwch-reolwyr i ganolbwyntio ar atal eisoes wedi cael ei roi ar waith.

- Pobl

Cynhaliom weithgaredd ymgysylltu yng Nghanolfan Ddydd Meadow Park, Hwlfordd gan fynychu digwyddiad ymgynghori ar yr adolygiad o wasanaethau dydd. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys pobl iau a oedd wedi cael cymorth gan Ddiwydiannau Norman a phobl a oedd yn defnyddio'r ganolfan ddydd. Roedd y bobl yn gadarnhaol am eu cyfranogiad gyda Diwydiannau Norman ac yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a gawsant i gymryd rhan mewn gweithgareddau a datblygu sgiliau. Disgrifiodd pobl eraill a oedd yn defnyddio'r ganolfan y budd a gawsant o gyfleoedd cymdeithasol, a'r staff cefnogol a fyddai'n eu cynorthwyo gyda materion personol. Dywedodd rhai pobl nad oedd y ganolfan yn cael ei defnyddio ddigon, bod y gost i'w mynychu yn ddrud a bod llwybrau atgyfeirio i ddefnyddio'r ganolfan yn aneglur ac felly'n peri oedi. Siaradodd llawer o'r bobl am y gydberthynas gadarnhaol â'r ysgol gynradd leol a oedd wedi arwain at bethau fel y disgyblion yn cwblhau prosiect am ddementia a gwaith hel atgofion yn y ganolfan.

Cyngor Sir Penfro yw'r awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i ddatblygu'r dull gweithredu Arwyddion Diogelwch fel model arfer oedolion. Adrodda'r awdurdod lleol fod y dull gweithredu wedi cael ei integreiddio mewn arfer a bod hyn wedi gwella'r ffocws ar ddiogelwch a llesiant oedolion mewn perygl. Mae'r dull gweithredu hwn yn cynnig cyfle da i roi barn yr unigolyn wrth wraidd y broses asesu a chefnogi sgysiau, gan helpu i sicrhau bod unigolion yn cael llais a dewis o ran y ffordd y caiff gofal ei ddarparu.

Yn ystod ein cyfarfod her i drafod hunanwerthusiad Cyngor Sir Penfro o gymorth i blant sy'n derbyn gofal, disgrifiodd swyddogion heriau mewn rhai meysydd gan gynnwys trosglwyddo, iechyd meddwl emosiynol, credyd cynhwysol a'r trothwy uchel ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc. Nodwyd bod y pwysau i gynnal asesiadau dichonoldeb gofalwyr wedi arwain at roi asesiadau ar gyfer gofalwyr maeth prif ffrwd i'r naill ochr. Nid oedd hon yn sefyllfa gynaliadwy ac mae'n gadarnhaol nodi bod newidiadau wedi'u cynllunio er mwyn i asesiadau gofalwyr gael eu cynnal yn gyson gan y Tîm Lleoliadau Teuluoedd.

Mae gan Gyngor Sir Penfro nifer gymharol fawr o bobl ifanc yn gadael gofal gyda 30% o bobl ifanc â phrofiad o ofal rhwng 16 ac 17 oed. Gyda'r ddyletswydd estynedig i gefnogi'r rheini sy'n gadael gofal nes iddynt droi'n 25 oed, disgwyliwyd cynnydd pellach yn y niferoedd. Cydnabuwyd bod darparu llety a thai â chymorth da i bobl ifanc yn her arall i Sir

Benfro, ond nodwyd yn yr arolygiad o'r gwasanaethau plant fod cysylltiadau da â'r adran tai drwy'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol.

Mae ein gwaith i fonitro'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid wedi nodi nad yw'r awdurdod lleol, yn debyg i lawer o rai eraill yng Nghymru, yn gallu bod yn sicr nad yw hawliau dynol pobl yn cael eu torri drwy gael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon. Byddwn yn parhau i fonitro hyn.

- Partneriaethau

Mae'r gwasanaeth Swyddogion Adolygu Annibynnol wedi cyflwyno'r model Arwyddion Diogelwch; mae adborth yn awgrymu bod teuluoedd yn teimlo bod y dull gweithredu'n fwy cynhwysol na modelau traddodiadol. Mae'r gwasanaeth Swyddogion Adolygu Annibynnol wedi cyflwyno cofnod cyfathrebu mwy gweladwy yn yr adolygiad canol cyfnod. Cyflwynwyd proses herio a datrys sy'n tueddu i ddatrys unrhyw broblemau ar lefel rheolwr tîm. Canfu'r arolygiad o'r gwasanaethau plant fod y Swyddogion Adolygu Annibynnol yn cael eu hystyried yn gadarnhaol ar draws y gwasanaeth fel cyfeillion beirniadol sy'n gweithio gyda gweithwyr cymdeithasol er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r bobl ifanc sy'n derbyn gofal.

Fel y nodwyd uchod, dechreuodd gwasanaeth gofal cartref mewnol ym mis Rhagfyr 2018. Roedd hyn yn gynharach na'r disgwyl, o ganlyniad i wendidau yn y farchnad. Buddsoddodd yr awdurdod lleol lawer o amser i sicrhau bod pobl yn cael parhad gofal a dewis yn ystod y cyfnod trosglwyddo.

- Atal

Mae Cyngor Sir Penfro yn un o bedwar partner statudol ym Mhartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru, ar y cyd â Chyngor Sir Gâr, Cyngor Sir Ceredigion a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Sefydlwyd y bartneriaeth i oruchwyllo trawsnewidiad ac integreiddiad parhaus gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant ar draws y rhanbarth. Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru, a sefydlwyd o dan Ran 9 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, yn goruchwyllo gwaith Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru.

Drwy gydol 2018, roedd ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal. Casglwyd tystiolaeth ansoddol o arolygiadau plant a maethu chwe awdurdod lleol, 22 o hunanwerthusiadau a gwblhawyd gan awdurdodau lleol, cyfarfodydd her a gynhaliwyd gyda'r awdurdodau lleol hynny nad oeddent yn destun arolygiad, a gweithgarwch ymgysylltu gyda phlant â phrofiad o ofal, y rhai oedd wedi gadael gofal a gofalwyr maeth. Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar ein gwefan ac amlinellir y canfyddiadau allweddol mewn perthynas â phroffil, digonolrwydd, arfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rhianta corfforaethol. Mae llawer o'r meysydd i'w gwella rydym wedi'u nodi yn cael eu hystyried gan Grŵp Cyngori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal ac rydym hefyd yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at ymdrin â'r canfyddiadau hyn.

Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2019/20

Bydd ein rhaglen arolygu thematig wedi'i threfnu ar gyfer y gwasanaethau oedolion yn 2019/20 yn canolbwyntio ar atal a hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn ac ar gyfer yr arolygiad thematig o wasanaethau plant, bydd y ffocws ar atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl. Os caiff eich awdurdod lleol ei ddewis i gael ei gynnwys yn y rhaglen hon, byddwch yn cael pedair wythnos o rybudd o ddyddiad yr arolygiad.

Byddwn yn cynnal gweithgareddau ymgysylltu a fydd yn cyd-fynd â'r arolygiadau thematig a byddwn yn cyfarfod â phobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal chymorth. Bydd AGC yn cynnull cyfarfod â'r awdurdod lleol a'i bartneriaid allweddol yn ystod yr haf i adolygu meysydd a nodwyd yn yr hunanwerthusiad a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2019 gan ganolbwyntio ar atal a hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn. Caiff adroddiad cenedlaethol thematig ei gyhoeddi ar ôl i'r arolygiadau a'r gweithgareddau ymgysylltu gael eu cwblhau.

Tua diwedd 2019, byddwn yn treialu arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant. Caiff yr arolygiad ar y cyd ei arwain gan AGC ac mewn partneriaeth ag AGIC, Estyn, Arolygiaeth Cwnstabwliaeth Ei Mawrhydi (Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi) ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. Gyda'r pwyslais ar gydweithredu ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus, mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau eraill i rannu gwybodaeth ac i gynllunio arolygiadau ar y cyd. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i rannu gwybodaeth er mwyn cefnogi gwelliannau i wasanaethau gofal cymdeithasol.

Bydd AGC yn parhau i weithio gydag AGIC yn 2019/2020 gan arolygu timau iechyd meddwl cymunedol ar y cyd. Bydd AGC yn cymryd camau dilynol i adolygu argymhellion a wnaed yn ystod adolygiad thematig ar y cyd AGIC ac AGC o Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol fel rhan o gyfarfodydd rhwng pennaeth y gwasanaeth ac awdurdodau lleol a gynhelir ddwywaith y flwyddyn.

Bydd ein gweithgaredd â ffocws gyda'r awdurdod lleol yn cefnogi ein prif linellau ymholi thematig ar gyfer 2019-20 (uchod). Bydd AGC yn ystyried y broses adolygu yn y gwasanaethau oedolion, ac yn y gwasanaethau plant bydd yn canolbwyntio ar ddiogelu plant, camfanteisio'n rhywiol ar blant ac atal. Ar gyfer y ddau weithgaredd, byddwn yn adolygu sampl o ffeiliau ac yn siarad â'r staff a'r bobl sy'n ymwneud â derbyn gwasanaeth.

Efallai y bydd hyn yn newid yn sgil materion sy'n dod i'r amlwg.

Sylwer bod y llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ac AGIC hefyd. Mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau partner i ystyried y safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, ynghyd â chyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir



Sharon Eastlake
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol Dros Dro
Arolygiaeth Gofal Cymru

Cc.
SAC
AGIC
Estyn